# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Andrea Lewis | Adran Etholiadol: | Treforys |

## Rhan 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd cynghorydd rheolaidd mewn cylchdro gyda'm cydweithwyr ward, yn Llyfrgell Treforys (ac Eglwys Dewi Sant pan oedd y llyfrgell yn cael ei hadnewyddu). Cynhaliais gymorthfeydd yn y neuadd goffa'n fisol a chymhorthfa yng Nghapel Newydd Seion yn ystod diwrnod agored Cymunedau'n Gyntaf. Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o fwrdd y neuadd goffa.

Euthum i gyfarfodydd PACT rheolaidd yn Nhreforys a Chwmrhydyceirw a chyfarfodydd rheolaidd Cymdeithas Preswylwyr Treforys a Chymdeithas Preswylwyr Stryd y Farchnad hefyd.
Euthum i gyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Chwarel Cwmrhydyceirw.

Euthum i gyfarfodydd fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Pentre'r Graig ac Ysgol Gynradd Treforys.

## Rhan 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd cyrff y cyngor penodol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 8 | / | 12 | 67 | % |
| Y cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALl | 5 | / | 6 | 83 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 9 | / | 15 | 60 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 1 | / | 1 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 52 | / | 75 | 69 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Rhan 3: Rôl a chyfrifoldebau Cynghorydd

Cynrychiolais yr awdurdod lleol ar Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac rwy'n parhau i wneud hynny. Rwy'n amgáu fy mhresenoldeb ar gyfer 2013/14 er gwybodaeth i chi.

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod Tân | 6 / 8 | 75 % |
| Pwyllgor Rheoli Adnoddau'r Awdurdod Tân | 3 / 5 | 75 % |
| Cyffredinol | 8 / 13 | 62 % |

Euthum hefyd i gyfarfod y Panel Taliadau Cydnabyddiaeth ar 13.03.14. a'r Pwyllgor Penodiadau - panel llunio rhestr fer ar 23.03.14.

Roeddwn ac rwy'n parhau i fod yn aelod o Dribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Llwyddais i a'm cydweithwyr ward i gefnogi'r cais i Lywodraeth Cymru i sicrhau arian i adnewyddu Llyfrgell Treforys.

Euthum i gyfarfod cyhoeddus â'm cydweithwyr ward, cyfarfod â chynrychiolwyr y Post Brenhinol i drafod y cynnig arfaethedig i gau Swyddfa Bost Llys Treforys.

Ymwelais â sawl safle ar y cyd â Phwyllgor Cynllunio Ardal 1.

Euthum i gyfarfodydd, ynghyd â'm cydweithwyr, i gael y diweddaraf am waith gwella Ysgol Gyfun Treforys.

Euthum i sawl cyfarfod Cymunedau'n Gyntaf, gan gynnwys Fforwm y Clâs/Caemawr, Fforwm Treforys a hefyd y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar gyfer cadeiryddion ac aelodau ward.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

27/11/2013 - Deall cyllideb y cyngor

Yn fy rôl fel cynullydd ysgol, ymgymerais hefyd â'r hyfforddiant canlynol:

10.06.2013 Sesiwn Cefnogi Gwobr Efydd
11.06.2013 Iechyd a Diogelwch
12.06.2013 Llywodraethwyr Newydd eu Penodi
09.04.2014 Trin Cwynion

Roeddwn wedi ymgymryd â hyfforddiant Amddiffyn Plant o'r blaen yn 2012

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ymdriniais â nifer mawr o faterion ward ar ran preswylwyr Treforys, gan gynnwys sicrhau safle bws galw a theithio ar Heol Llanllienwen, safle bws newydd gyferbyn ag Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw a materion amrywiol eraill, gan weithio gyda'm cydweithwyr ward.

Euthum i gyfarfodydd Gweithrediaeth a Grŵp Llafur rheolaidd. Roeddwn ac rwyf o hyd yn Ysgrifennydd Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth Cynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Mai 2014 |